



Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant y Sector Gwirfoddol

Dydd Mawrth 18 Mai 2022
10am-11.45am
Microsoft Teams

AGENDA

Mynychwyr

- Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan
- Suzanne Mollison, CGGC
- Joanne Maksymiuk-King, Race Council Cymru
- Matthew Brindley, Hospice UK
- Clair Swales, PAVO
- Fateha Ahmed, EYST
- Kate Griffiths, Y Groes Goch
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Wynne Roberts, Cyngor Rhyng-ffydd
- Ross Evans, Aren Cymru
- Gemma Lelliot, Cymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) UK
- Faye Patton, Gofal a Thrwsio
- Donna Coyle, Cwmpas
- Rhian Stangroom-Teel, Leonard Cheshire
- Joshua Reeves, Leonard Cheshire
- Nia Lloyd-Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Tracy Jones, Tŷ Hafan
- Rhian Davies, Anableded Cymru

- Nicola Evans, Llywodraeth Cymru
- Helen Smith, St John Cymru
- Dan Roberts, Cwmpas
- Fiona Liddell, CGGC
- Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru
- Judith Stone, CGGC
- David Cook, CGGC

Cyflwyniad – Y Tasglu Cydraddoldeb i bobl Anabl

Rhoddodd Rhian a Debbie eu cyflwyniad ar waith y Tasglu. Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio. Maen nhw'n awyddus i annog ymgysylltiad â'r Tasglu, ac i ddeall mwy am y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Trafododd y grŵp rwystrau yn ymwneud â thrafnidiaeth a phrinder eiriolwyr i deuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd Debbie yn poeni nad oedd effaith COVID-19 ar bobl anabl yn cael ei chofnodi na'i gwerthuso o'i gymharu â grwpiau eraill.

Awgrymodd Wynne mai un ffordd o gysylltu â grwpiau anabledd o fewn gwasanaethau iechyd oedd cysylltu â Byrddau Iechyd Lleol a gofyn am fanylion Hyrwyddwr Anabledd y Bwrdd.

Camau gweithredu:

- *Debbie, Nicola a Kate i siarad y tu allan i'r cyfarfod parthed y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol.*
- *Aelodau'r grŵp i anfon e-bost i policy@wcva.cymru os oes ganddynt unrhyw ddolenni neu fewnwelediadau eraill i'w rhannu ynghylch y gwaith hwn.*

Cyflwyniad – Y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol

Nododd Judith sesiwn flaenorol CGGC ar y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd Nicola ei chyflwyniad ar y gwaith diweddaraf a'r fersiwn ddiweddaraf o'r Fframwaith. Roedd y prif themâu yn cynnwys llwybrau atgyfeirio, arweinyddiaeth a llywodraethu, cynaliadwyedd, y gweithlu, technoleg a dealltwriaeth gyffredin. Disgwylir i ddogfen ymgynghori fynd allan ym mis Mehefin ac i ddigwyddiadau cyhoeddus gael eu cynnal. Nododd y grŵp yr angen am sefydlogrwydd o fewn y fframwaith, a phryderir y bydd y fframwaith yn mynd yn rhy feddygol drwy'r sector iechyd.

Camau gweithredu

- *Dylai'r rheini â diddordeb yn y cyflwyniadau yn sesiwn flaenorol CGGC anfon e-bost i policy@wcva.cymru.*
- *Ben Lloyd (Rheolwr Polisi CGGC) i barhau i ymgysylltu â'r sector ar y gwaith hwn, ac ymgysylltu â Nicola fel rhan o'r broses hon.*

Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd y cofnodion.

Mae Judith yn gweithio gyda Sally Rees yn Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod rhwng swyddogion a mudiadau trydydd sector cenedlaethol i edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â sut mae mudiadau cenedlaethol yn ymgysylltu â strwythurau rhanbarthol.

Diweddariadau:

Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol

Cafodd y grŵp hwn ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ddilyn i fyny ar y Papur Gwyn ar ofal cymdeithasol. Bydd y Grŵp Technegol yn llywio datblygiad polisi a deddfwriaeth, ac yn rhoi cyngor i'r llywodraeth ar yr agweddau technegol ar ddatblygu polisi. Gwnaeth y cyfarfod cyntaf ganolbwyntio ar Gylch Gorchwyl. Edrychodd yr ail ar gomisiynu. Mae cyfres o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu er mwyn gwneud cynnydd ar ffrydiau gwaith penodol. CAVO fydd y cynrychiolydd ar y grŵp cynllunio a pherfformio. Bydd CGGC yn rhan o'r grŵp llywodraethu a chraffu. Bydd grwpiau eraill yn edrych ar ail-gydbwysu'r farchnad gofal cymdeithasol, darparu gwasanaethau integredig, ac ymgysylltiad a llais. Nododd Kate ei bod yn aelod o'r grŵp llais dinasyddion, ac mae Donna yn aelod o'r grŵp ail-gydbwysu'r farchnad. Bydd cynrychiolwyr yn diweddarau'r grŵp yn rheolaidd ar ddatblygiadau.

Y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol (NCS)

Mae Kate yn mynychu cyfarfodydd ynghylch sefydlu'r NCS. Mae'r grŵp wedi cael y dasg o feddwl am gamau ymarferol lefel uchel. Mae is-grwpiau sy'n ymwneud â llais dinasyddion, y gweithlu, cyflenwi systemau a thalu am ofal. Mae pwysigrwydd gwirfoddoli yn cael sylw, ynghyd â rôl gofalywr di-dâl a Thaliadau Uniongyrchol.

Mynegodd y grŵp yr angen i wneud yn siŵr bod yna broses ymgysylltu sylweddol o ran sut mae'n datblygu. Trafodwyd y broblem o ran costau byw, a faint o wirfoddolwyr allai gael eu gorfodi i roi'r gorau i wirfoddoli er mwyn ymgymryd â mwy o waith sy'n talu – byddai hyn yn effeithio ar wasanaethau craidd.

Penderfynodd y grŵp eu bod eisiau trafod gwaith sy'n ymwneud â'r NCS gyda'r Gweinidog pan fyddai'r cyfle'n codi. Nododd Kate y byddai'n well pe bai hyn yn digwydd yn yr hydref, pan fyddai'r adroddiad cychwynnol wedi'i ryddhau.

Camau gweithredu

- Aelodau'r grŵp i anfon e-bost i policy@wcva.cymru os ydynt yn aelodau o grwpiau strategol eraill y credant y dylem wybod amdanynt.
- Kate a Fateha i siarad am ofalwyr di-dâl.

Diweddariad ar y fenter Aros yn Iach

Fiona i rannu gwybodaeth â'r grŵp drwy e-bost.

Diweddariad ar swydd Rheolwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Trydydd Sector Cenedlaethol

Mae CGGC wrthi'n cadarnhau contract gyda rhywun – manylion i ddilyn.

Siaradwyr sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer cyfarfod 6 Medi

- Matt Jenkins, Llywodraeth Cymru, ar bwysau'r gaeaf
- Sarah Lusty, Llywodraeth Cymru, ar ail-gydbwyso gofal a gwaith y Grŵp Technegol Cenedlaethol

Unrhyw fater arall

Cam gweithredu:

- *Dosbarthu gwybodaeth ynghylch cyfraniad y sector at ffrydiau gwaith newydd Gartref yn Gyntaf ar gynllunio gofal brys a gofal mewn argyfwng.*

11:45am: Cau

Cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion
l'w gadarnhau

Cyfarfod grŵp nesaf:
Dydd Mawrth 6 Medi 2022, 10am-12pm